Ministry of Justice

**Yr Arglwydd Timpson**
Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder

Cadeirydd Bwrdd Monitro Annibynnol
CEF Berwyn
Heol y Bont
Ystadau Diwydiannol Wrecsam
Wrecsam
Gogledd Cymru
LL13 9QE

**Cyfeirnod MoJ:** SUB129611

21 Ionawr 2026

Annwyl Gadeirydd,

**CEF BERWYN: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL RHWNG 1 MAWRTH 2024 A 28 CHWEFROR 2025**

Diolch am ddarparu adroddiad blynyddol eich Bwrdd ar gyfer CEF Berwyn. Rwy'n ddiolchgar i chi a'ch cydweithwyr am y gwaith caled a'r ymroddiad parhaus wrth gofnodi'r sylwadau defnyddiol hyn. Rwyf wedi nodi, er bod nifer yr aelodau wedi cynyddu ychydig ar ddiwedd y cyfnod adrodd, eich bod yn parhau i weithredu gyda nifer sylweddol is na'r nifer angenrheidiol ac rwy'n gobeithio y bydd y sefyllfa yn gwella ymhellach. Mwynheais fy ymweliad â CEF Berwyn a chroesawais y cyfle i allu cyfarfod yr IMB.

Roeddwn i'n drist iawn o glywed bod dau garcharor wedi marw yn y ddalfa yn ystod y flwyddyn adrodd. Rwy'n cydymdeimlo'n ddiffuant â ffrindiau a theuluoedd y rhai a fu farw a hoffwn roi sicrwydd i'r Bwrdd bod argymhellion a wnaed gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf bob amser yn cael eu cymryd o ddifrif.

Mae'r Llywodraeth yn ymwybodol iawn o'r heriau penodol sy'n wynebu'r rhai sydd wedi cael dedfryd o Garchar er mwyn Diogelu'r Cyhoedd (IPPs). Er ein bod yn benderfynol o wneud cynnydd pellach i gefnogi'r garfan hon i gael eu rhyddhau'n ddiogel a chynaliadwy, ni fydd hynny mewn ffordd sy'n peryglu diogelwch y cyhoedd. Mae fersiwn diweddaraf y Cynllun Gweithredu IPP, a gyhoeddwyd ar 17 Gorffennaf 2025, yn gosod targed yn y cynllun i sicrhau y bydd yr holl droseddwyr IPP sy'n cael eu galw'n ôl am beidio â bod mewn cyswllt, neu mewn perthynas â honiadau a ganfuwyd yn gyflym oedd yn ddi-sail, yn cael eu hystyried ar gyfer Adolygiad Adalw ar sail Asesiad Risg (RARR). Mae pŵer RARR eisoes wedi'i ddefnyddio i ryddhau nifer o garcharorion IPP, mewn rhai achosion, fisoedd cyn y gwrandawiad parôl.

Gallaf sicrhau'r Bwrdd ein bod yn gwneud cynnydd i ddelio gyda'r rhai sydd wedi cael dedfrydau IPP a'u bod yn cael eu rhyddhau o bosibl yn y dyfodol. Fel y soniwyd uchod, mae'r Cynllun Gweithredu IPP diweddaraf yn rhoi pwyslais pwysig ar ddarpariaeth rheng flaen effeithiol yn ein carchardai a'r Gwasanaeth Prawf i sicrhau bod gan y rhai sydd wedi cael dedfrydau IPP gynlluniau dedfrydu cadarn ac effeithiol, y maent yn ymgysylltu'n weithredol â nhw, a'u bod yn y carchar mwyaf priodol ar gyfer eu hanghenion. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol i'w helpu i leihau eu risg fel y gallant symud ymlaen tuag at gael eu rhyddhau o'r ddalfa yn ddiogel. Mae'r Cynllun Gweithredu diweddaraf a'r Adroddiad Blynyddol IPP ar gael ar wefan GOV.UK.

Rwy'n gwerthfawrogi eich pryderon ynghylch carcharorion sy'n cyrraedd gyda dedfrydau tymor byr. Mae'r Bil Dedfrydu, a gyflwynwyd ar 2 Medi 2025, yn bwrw ymlaen â llawer o argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol sy'n gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol. Bydd y diwygiadau yn y Bil Dedfrydu yn sicrhau bod y galw am garchardai ar sail fwy cynaliadwy yn y dyfodol.
Mae'r Llywodraeth bellach yn cyflawni cyfres o ddiwygiadau drwy'r Bil sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd. Bydd y diwygiadau hyn yn lleihau dibyniaeth ar garcharu tymor byr, gan sicrhau diogelwch y cyhoedd a

**Ffôn:** +4420 3334 3555
**Ffacs:** +44870 761 7753

**E** https://contact-moj.service.justice.gov.uk/
www.gov.uk/moj

102 Petty France
London
SW1H 9AJ

chynnal disgresiwn barnwrol. Mae'r mesurau o fewn y Bil Dedfrydu yn cynnwys: rhagdybiaeth bod llysoedd yn gohirio dedfrydau carchar byr o 12 mis neu lai (yn amodol ar eithriadau); ymestyn gorchmynion dedfryd ohiriedig hyd at dair blynedd o'r ddwy flynedd bresennol; dedfrydau cymunedol ehangach fel gwaharddiad rhag gyrru neu fynychu tafarndai neu chwaraeon ynghyd â pharthau cyfyngu llym newydd sy'n cyfyngu troseddwyr i ardal ddaearyddol benodol; a model dilyniant newydd sy'n cynnwys goruchwyliaeth ddwys gyda thagio ac amodau trwyddedu newydd ond yn amodol ar eithriadau.

Gan droi at drefniadau ôl-ryddhau, mae Model Adsefydlu Cymru yn darparu asesiad o anghenion adsefydlu ar unwaith drwy Gyfweliad Trylwyr gyda'r holl garcharorion yn CEF Berwyn waeth ym mha ardal  ddaearyddol mae eu cartref. Mae'n sicrhau bod pob carcharor yn cael cyfle i drafod eu hanghenion ac i gyfeirio at amryw o ddarpariaethau adsefydlu ar y safle neu yn y gymuned i hwyluso'r broses o'u paratoi'n brydlon ar gyfer eu rhyddhau. Mae'r Ymarferydd Prawf Cymunedol a'r staff yn y sefydliad yn cael gwybod beth yw canfyddiadau'r asesiad ac unrhyw gamau gweithredu a roddwyd ar waith neu sy'n gofyn am eu hymyrraeth i symud ymlaen. Er bod cynlluniau rhyddhau'n gynnar wedi rhoi pwysau ar y gwasanaeth hwn, mae staff wedi blaenoriaethu'r rhai sy'n agos at gael eu rhyddhau i sicrhau bod pob carcharor yn cael ei gefnogi.

Yn ystod 2024-25 derbyniodd CEF Berwyn gyfran uchel o garcharorion o Ogledd Orllewin Lloegr oedd angen eu derbyn i'r ysbyty i uned ddiogel (gymharol). Cydnabyddir bod amser aros sylweddol a phwysau ar fannau diogel yng Ngogledd Orllewin Lloegr. O ganlyniad, ceisiodd comisiynwyr y GIG ddod o hyd i welyau preifat diogel a arweiniodd at oedi dros y 28 diwrnod a argymhellir. Gallaf gadarnhau bod swyddogion o Gymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar y Bil Iechyd Meddwl. Yn ddiweddar cwblhaodd y Bil y Cam Pwyllgora yn Nhŷ'r Cyffredin ac mae'r diwygiadau yn cynnwys cyflwyno terfyn amser statudol newydd o 28 diwrnod ar gyfer trosglwyddo cleifion ag anhwylder meddwl o'r carchar a mannau cadw eraill i'r ysbyty. Mae'r terfyn amser hwn, ynghyd â gwelliannau gweithredol, yn anelu at leihau oedi diangen a darparu mynediad cyflymach at driniaeth. Er na allaf wneud sylwadau ar achosion unigol a phenderfyniadau gweithredol, mae fy swyddogion yn fy sicrhau bod y carchar yn ceisio osgoi gosod carcharorion mewn unedau gwahanu hyd nes eu bod yn cael eu trosglwyddo. Dim ond fel dewis olaf i amddiffyn staff a charcharorion ac yn dilyn cyfarfodydd amlddisgyblaethol y defnyddir unedau gwahanu.

Rwy'n cydnabod bod materion i'w datrys yn CEF Berwyn ac felly roedd yn galonogol derbyn eich sylwadau bod y gweithdai a'r hyfforddiant wedi gwella, a bod gan y carchar y nifer uchaf o garcharorion mewn cyflogaeth ar ôl eu rhyddhau yn ei grŵp cymharol. Cefais fy annog ymhellach i nodi brwdfrydedd y carcharorion ynghylch y cwrs mentora cymheiriaid ynghyd â'u balchder mewn cynhyrchu bagiau tywod ar gyfer y Weinyddiaeth Amddiffyn. Hoffwn hefyd ganmol staff y carchar am eu cynllunio meddylgar ar gyfer cyfnod y Nadolig. Er nad oedd penodiad y llywodraethwr newydd yn y cylch adrodd, rwy'n croesawu'r penodiad ac mae'r adroddiadau cynnar am ei arweinyddiaeth yn galonogol iawn.

Bydd y Llywodraethwr yn mynd i'r afael â materion lleol sy'n peri pryder yn eich adroddiad a bydd yn parhau i'ch diweddaru am y cynnydd wrth i'r gwaith barhau. Mae sylwadau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) mewn ymateb i faterion eraill a godwyd yn eich adroddiad wedi'u nodi yn yr atodiad a atodwyd.

Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau yn gwerthfawrogi'r rôl werthfawr sydd gan aelodau yn y Byrddau Monitro Annibynnol ledled yr ystâd ac rydym yn ddiolchgar iawn am eich ymrwymiad parhaus a'ch gwaith caled ar ran CEF Berwyn.

Yn gywir



**Yr Arglwydd Timpson**
**Y Gweinidog dros Garchardai, Prawf, a Lleihau Aildroseddu**

# CEF BERWYN: ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD MONITRO ANNIBYNNOL RHWNG 1 MAWRTH 2024 A 28 CHWEFROR 2025

## Sylwadau HMPPS ar faterion a godwyd yn yr adroddiad

### Cyflwr Celloedd

Fel y nododd y Bwrdd, bu'n rhaid stopio'r rhaglen dreigl o welliannau paentio celloedd oherwydd pwysau cyffredinol poblogaeth y carchar sy'n golygu nad oes modd peidio â defnyddio’r celloedd. Fodd bynnag, pan fydd celloedd angen eu trwsio am resymau heblaw paentio, manteisir ar y cyfle i wneud gwaith paentio ac mae’r gwaith yma wedi’i orffen bellach mewn tua 300 o gelloedd. Caiff y gwaith hwn ei wneud gan dîm carcharorion Glân, Adsefydlu, Galluogi a Gweddus (CRED) a allai hefyd dderbyn hyfforddiant ffurfiol mewn plastro. Mae carcharorion CRED wedi disgrifio'r swydd fel y cyfle gorau y maen nhw erioed wedi'i gael tra eu bod yn y carchar ac mae manylion eu hyfforddiant a'u profiad yn cael eu trosglwyddo i gyflogwyr fel rhan o'u paratoadau ar gyfer eu rhyddhau.

### System Wresogi

Mae HMPPS yn falch o gadarnhau bod y system wresogi yn parhau i weithio fel arfer ar ôl gwaith helaeth ac erbyn hyn dim ond gwaith cynnal a chadw arferol a wneir.

### Dosbarthu Meddyginiaeth Penwythnos

Disgwylir i fferyllfeydd carchardai gydymffurfio â safonau proffesiynol ar gyfer gwneud y defnydd gorau o feddyginiaethau mewn amgylcheddau diogel fel y disgrifir gan y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol. Mae pob carchar yng Nghymru wedi bod yn destun adolygiad allanol yn erbyn y safonau hyn. Dylid modelu gwasanaethau i wneud y mwyaf o fynediad carcharorion at feddyginiaethau yn ystod yr oriau cyntaf ar ôl eu derbyn, fel meddyginiaethau noson gyntaf.

Diwallir anghenion dosbarthu y tu allan i oriau CEF Berwyn drwy sawl cyfleuster 'Mediwell' sydd wedi'u lleoli yn yr adeilad gofal iechyd ac ar flociau tai lle mae amrywiaeth o feddyginiaethau yn cael eu storio. Ochr yn ochr â'r prif opsiwn hwn, mae gan y darparwr gofal iechyd fynediad i'r fferyllfa frys 24 awr yn yr ysbyty lleol rhag ofn bod angen meddyginiaeth benodol ac nad yw ar gael ar y safle. Mae'r opsiynau hyn yn sicrhau bod meddyginiaethau angenrheidiol ar gael dros y penwythnosau a’r tu allan i oriau. Yr unig gafeat yw os yw carcharor yn cyrraedd CEF Berwyn gyda math prin o feddyginiaeth ar ei bresgripsiwn (fel arfer wedi'i bresgripsiynu gan uned arbenigol). Mewn amgylchiadau o'r fath efallai y bydd oedi oherwydd na fydd yr ysbyty yn cadw'r feddyginiaeth angenrheidiol neu ei bod yn ofynnol i'r tîm gofal iechyd ei gael gan yr uned presgripsiynu arbenigol.